Brownies

Girlguiding Cymru

# Stori'r Brownie



# Stori'r Brownie

## Dysgwch sut y cafodd Brownies eu henw

**Roedd Katie a'i ffrind Sunita yn cael parti pyjamas.**

**Roedd mam Katie yn brysur yn tacluso'r tŷ ar gyfer ymweliad Mam-gu Beti. 'A wnewch chi glirio'ch llanast!' ebychodd hi.**

**Ochneidiodd Katie a Sunita a symud rhai o'u pethau o gwmpas ychydig cyn eistedd yn ôl o flaen y teledu.**

**Yn fuan cyrhaeddodd Mam-gu Beti a chwerthin. 'Mae'n edrych fel petai angen Brownie arnoch chi!' meddai hi.**

**Gwenodd Mam yn ôl. 'Byddai hynny'n fendigedig!'
'Beth yw Brownie, Mam-gu Beti?' gofynnodd Katie.**

**'Fe wna i ddweud wrthoch chi heno, amser gwely,' atebodd Mam-gu Beti. 'Gadewch inni glirio'r llanast yma yn gyntaf, ie?'**


**Pan ddaeth yn amser gwely, fe wnaeth Katie atgoffa Mam-gu Beti am ei haddewid i ddweud wrthyn nhw am y Brownie.**

**Ar ôl iddi wneud ei hun yn gyfforddus, ar ddiwedd gwely Katie, dechreuodd Mam-gu Beti adrodd stori ryfedd, gyffrous a dirgel iddyn nhw.**

**Mewn bwthyn bach tlws roedd teulu gyda dau o blant o'r enw Beti a Tomi yn byw. Er eu bod nhw'n gyfeillgar, roedd y plant yn flêr iawn a bron byth yn clirio ar eu holau. Roedd llestri i'w golchi, dillad i'w rhoi i gadw a theganau ar wasgar ar hyd y llawr. Doedd dim ots gan Beti a Tomi. Roedden nhw'n casáu gwneud gwaith tŷ.**

**'Beth alla i ei wneud?' ochneidiodd eu mam. 'Alla i ddim cadw'r bwthyn yn daclus ar fy mhen fy hun. O! na bai ganddon ni Brownie!'
'Beth yw Brownie, Mam?' gofynnodd Beti.**

**'Mae Brownie yn greadur bach hudolus, sy'n llithro i mewn i dai pobl yn gynnar iawn cyn i neb ddeffro. Mae'n tacluso teganau, yn plygu dillad, yn golchi llestri ac yn gwneud pob math o bethau defnyddiol,' atebodd ei mam.**



**Yn ddiweddarach y noson honno, sleifiodd Beti a Tomi allan o'r bwthyn i'r goedwig. Roedd yn oer ac yn dywyll ac yn llawn cysgodion. 'Allwn ni ddim mynd ’nôl. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i'r dylluan ddoeth,' meddai Beti’n gadarn, er ei bod hi’n teimlo’n ofnus.**

**'Mae Mam bob amser yn dweud wrtha i i beidio â mynd allan ar fy mhen fy hun ar ôl iddi dywyllu, Mam-gu Beti,' meddai Sunita. 'Sut gafodd Beti a Tomi fynd?'**
**'Rwyt ti'n iawn,' atebodd Mam-gu Beti. 'Roedd pethau'n wahanol iawn bryd hynny, ond stori yn unig yw hon. Dewch ’mlaen, gadewch inni fynd yn ôl at y stori yn y goedwig dywyll ...'**

**'Hww hww! Sut y’ch chi?' hwtiodd llais at y plant o goeden gerllaw.**

**'Y dylluan ddoeth!' Fe wnaeth Tomi gwtsio Beti mewn rhyddhad. Cyn bo hir, roedd y plant yn eistedd ar gangen, gan swatio’n agos at blu cynnes yr aderyn mawr. Fe wnaethon nhw egluro eu bod yn ceisio dod o hyd i Frownie.**
**'Ydych chi'n gwybod lle allwn ni ddod o hyd i un?' gofynnodd Beti.**
**'Yn wir mi ydwyf,' hwtiodd y dylluan ddoeth a, gan osod ei big yn agos at glust Beti, eglurodd.**

**'Tomi!' ebychodd Beti.  Mae yna Brownie yn y pwll hwnnw draw yn fan ‘na. Mae'n rhaid i mi fynd i'r pwll, troi o gwmpas tair gwaith, edrych i mewn i'r dŵr a dweud "Troellwch a throwch fi a dangoswch i mi’r coblyn, edrychais yn y dŵr ac yno mi welais..."**
**‘Pwy? Pwy? Pwy?' hwtiodd y dylluan ddoeth. ‘Edrychwch i mewn i'r dŵr a byddwch yn gweld eich Brownie yn edrych yn ôl arnoch chi. Bydd ei henw yn gorffen y rhigwm."**

**Rhedodd y plant i'r pwll. Gwnaeth Beti yn union fel roedd y dylluan ddoeth wedi dweud.**

**"Troellwch a throwch fi a dangoswch i mi’r coblyn, edrychais yn y dŵr ac yno mi welais..."**

**Edrychodd Beti i mewn i'r pwll.**

**‘Wel, wyt ti’n gallu ei gweld? Wyt ti'n gallu gweld Brownie?' gwaeddodd Tomi.**
**'Na,' meddai Beti, 'y cyfan alla i ei weld yw fy adlewyrchiad fy hun.'**
**Roedd Beti a Tomi mor siomedig eu bod nhw mewn dagrau erbyn iddyn nhw gyrraedd y goeden eto.**

**'Bww, hww, hww? Beth sy'n bod arnoch chi’ch dau?" hwtiodd y dylluan ddoeth.**
**'Daethon ni ddim o hyd i Frownie,' sniffiodd Beti. 'Welais i neb yn y dŵr ond fi fy hun.'**

'Wel, wel, wel,' meddai'r dylluan ddoeth. 'A gawn ni weld os yw hynny'n ffitio'r rhigwm? Troellwch a throwch fi a dangoswch i mi'r coblyn, edrychais yn y dŵr ac yno mi welais..."

'Fy hun!' gorffennodd Betty, gan swnio'n ddryslyd. 'Ond dydw i ddim yn Brownie!'
'Gwir yr, gwir yr,' gwaeddodd y dylluan ddoeth. "Ond fe allech chi a Tomi actio fel un am newid . Efallai y bydd hyd yn oed yn hwyl!'
Roedd gan Beti a Tomi lawer i feddwl amdano ar y ffordd yn ôl i'r bwthyn. Erbyn iddyn nhw gyrraedd adref, roedden nhw wedi gwneud eu penderfyniad.

Pe baech wedi pasio'r bwthyn yn gynnar iawn y bore nesaf, efallai y byddech wedi gweld golau wrth y ffenestr a dau ffigwr yn rhuthro o gwmpas y tu mewn. Pan ddaeth eu mam i lawr i frecwast, prin y gallai hi gredu'i llygaid! Doedd dim teganau yn y golwg, roedd y golch wedi cael ei wneud a'r dillad wedi eu cadw. Roedd popeth yn lân ac yn daclus.

"Wel, mae'n sicr yn edrych fel petai Brownie wedi bod yma. Am wych!' gwaeddodd. Chwinciodd Beti at ei brawd gan wenu.

Ers hynny, mae'r bwthyn wedi bod fel lle gwahanol. Mae Beti a'i brawd wedi bod fel plant gwahanol. Dydyn nhw byth wedi diflasu nawr, maen nhw'n llawer rhy brysur yn cynllunio eu cymwynasau cyfrinachol!
Pan ddiffoddodd Mam-gu Beti'r golau, roedd Katie a Sunita yn sibrwd am y stori roedden nhw wedi'i chlywed ac am yr hwyl y gallen nhw ei chael yn esgus bod yn Brownies.

'Da ni wedi bod braidd yn ddiog hefyd, Sunita,' meddai Katie.
"A ddylwn ni godi'n gynnar yfory a cheisio bod yn fwy cymwynasgar? Gallwn ni roi help llaw gartref, ond heb ddweud pam!'

Cyn i bawb arall ddeffro, sleifiodd Katie a Sunita i lawr y grisiau, tacluso eu holl bethau a gosod y bwrdd i frecwast. Roedd y ddwy'n addo bod yn Brownies da o hynny ymlaen.

